PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 9 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, J.M. Norman, A.C. Parker, S.D. Perkes a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) ac I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) a L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y H. Gapper (Addysg Gymraeg).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – DYLID cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. STRATEGAETH DDRAFFT HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG (CYF) –

ARGYMHELLWYD – DYLID cymeradwyo'r Strategaeth Ddrafft Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg fel y'i atodir i'r cyfeirnod gan y Cabinet yn ddyddiedig 8fed Tachwedd, 2021 (Cofnod Rhif C720), gan ystyried y sylwadau a wnaed uchod.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Craffu wedi rhoi adborth cyn ystyried fersiwn ddrafft terfynol pellach o'r Strategaeth.

EITEM AGENDA 5. CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG DRAFFT 2022-23 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – DYLID cymeradwyo'r Cynllun Cyflenwi Blynyddol drafft fel y'i cynhwysir yn y cyfeirnod gan y Cabinet yn ddyddiedig 22ain Tachwedd, 2021 (Cofnod Rhif C742).

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Craffu wedi rhoi adborth ar y Cynllun drafft fel rhan o'r rhaglen ymgynghori.

EITEM AGENDA 6. CWRICWLWM I GYMRU: Y DAITH I 2022 – DIWEDDARIAD TYMOR YR HYDREF 2021 –

ARGYMHELLWYD – DYLID dweud diolch i aelodau staff cynrychioliadol Ysgol Gynradd Pendoylan yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am eu cyflwyniadau, a nodi cynnwys eu cyflwyniadau.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniadau a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL, 2021 I 30 MEDI, 2021 A'R GYLLIDEB DDIWYGIEDIG AR GYFER 2021/22 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

(2) DYLID nodi'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. CYNIGION CYCHWYNNOL CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi'r Cynigion Cyllideb Refeniw Cychwynnol ar gyfer 2022/23.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. CYNIGION RHAGLEN GYFALAF CYCHWYNNOL 2022/23 I 2026/27 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi'r Cynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynnol ar gyfer 2022/23 i 2026/27.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 2021/22 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflenwi Blynyddol 2021/22 fel y maent wedi'u halinio ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) DYLID nodi'r camau adferol i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(3) DYLID nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud trwy Strategaeth Adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafirws parhaus.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1,2&3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.